


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o’r cyngor

## 21 Awst 2020







© Hawlfraint y Goron 2020 WG40655

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

21 Awst 2020

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.06 a -0.01 sy'n golygu y gallai heintiau fod yn lleihau o un i chwech y cant y dydd. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd twf a rhif atgynhyrchu Cymru. Y rheswm am hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar niferoedd achosion isel ac yn cael eu dylanwadu'n gryf gan glystyrau o achosion ac nad ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

- Ar gyfer yr wythnos rhwng 07 Awst a 13 Awst, roedd gan gyfartaledd o 0.04% o boblogaeth y gymuned yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.01% i 0.10%). Nid yw'r amcangyfrif o 0.04% wedi newid i raddau helaeth ers yr wythnos flaenorol. Bydd cryn ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn nes bydd maint y sampl yn cynyddu dros ragor o wythnosau.

## Cyfradd twf

- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.06 a -0.01. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfradd twf wirioneddol; gallai heintiau fod yn lleihau o un i chwech y cant y dydd.

- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd twf a rhif atgynhyrchu Cymru. Y rheswm am hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar niferoedd achosion isel ac yn cael eu dylanwadu'n gryf gan glystyrau o achosion ac nad ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

## Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf ar gyfer rhif atgynhyrchu $R_t$ Cymru gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yw rhwng 0.70 a 1.0. Oherwydd y nifer isel o achosion, mae'r amcangyfrif o $R_t$ bellach yn cael ei roi fel cyfwng hyder o 90% heb amcangyfrif canolog. Mae'r cyfwng hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth $R_t$.

- Bydd gwerth $R_t$ cyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth $R_t$ cyson sy'n uwch na 1 yn arwain at gynnydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ostwng, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu pan all achosion lle bydd y feirws yn

lledaenu i nifer o bobl mewn cyfnod byr o amser arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.

## Amcangyfrif Cyfredol o Rt

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bach yn $R_t$ yng ngwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o’u cymharu â Lloegr.

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu eto mewn data clinigol, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o $R_t$.

- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu’r rhain drwy amcangyfrif $R_t$ ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Mae $R_t$ ond yn ystyried trosglwyddiad pellach i eraill pan fydd y feirws wedi’i gyflwyno mewn poblogaeth benodol.

- Mae SPI-M-O yn argymell na ddylid monitro’r sefyllfa mewn lleoliadau penodol gan ddefnyddio $R_t$ ond yn hytrach o ran sut y mae nifer yr achosion a marwolaethau ynddynt yn newid, a lle y bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.

## Amser haneru


- Ni ellir darparu amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd y niferoedd isel o dderbyniadau i’r ysbyty.

## Glynu at y mesurau presennol a symudedd

- Dangosodd y data IPSOS MORI diweddaraf fod llawer fod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu gostyngiadau pellach yn nifer y rhai sy’n teithio pan fo hynny’n hanfodol yng Nghymru wrth weithio gartref, ac arhosodd y gyfradd o bobl a oedd yn osgoi trafnidiaeth gyhoeddus nad oedd yn hanfodol a chadw 2 fetr i ffwrdd oddi wrth eraill yn sefydlog.

- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar blatfform Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed yn fras. Mae’r data’n cael eu

pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Nid yw symudedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn dangos fawr ddim newid, ond ceir gostyngiadau yn nata Apple ar geisiadau gyrru. Mae newidiadau mewn symudedd yng Nghymru wedi bod yn debyg ar y cyfan i'r gwledydd eraill yn ystod yr wythnos diwethaf.


- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn bellach tua 5% yn is ac mae wedi gostwng ychydig ers yr wythnos ddiwethaf. Mae 24% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros lle maen nhw, yn debyg i'r wythnos flaenorol. Ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros lle roedden nhw – roedd hyn tua 18% ddechrau mis Mawrth.

- Mae data Apple sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau mis Gorffennaf ac maent yn is na'r wythnos ddiwethaf. O'i gymharu â'r llinell sylfaen mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill. Mae data symudedd Google yn dangos cynnydd parhaus mewn manwerthu a hamdden, ond maent yn llai nag yr oeddynt yn yr wythnosau blaenorol. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos gostyngiad bach (ynghyd â pharciau) tra bo categorïau eraill yn dangos ychydig o newid.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin

gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr nag yng Nghymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny i ddechrau mis Awst. Ers hynny mae'r newidiadau wedi bod yn debyg.

- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.




## Astudiaeth Heintiau y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Ar gyfer yr wythnos rhwng 07 Awst a 13 Awst, roedd gan gyfartaledd o 0.04% o boblogaeth y gymuned COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.01% i 0.10%). Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,400 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 8,600 i 1 o bob 1,000), neu 1,300 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 400 i 2,900).
- Nid yw'r amcangyfrif o 0.04% wedi newid i raddau helaeth ers yr wythnos flaenorol.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon a darperir cyfyngau credadwy i ddangos o fewn pa ystod y gallwn fod yn hyderus y mae'r gwir ffigur yn gorwedd.

**Ymchwil**

- Mae 5151 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n 56 o gynnydd yn y saith niwrnod diwethaf.

**Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Tueddiadau

- Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a nifer y galwadau i Galw Iechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog.

- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn.

- Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, cynyddodd nifer y cyfnodau COVID-19 a gadarnhawyd yn y lab yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ond maent yn parhau'n isel.

- Mae derbyniadau i'r ysbyty ac unedau gofal dwys yn isel ac yn sefydlog.

- Mae prif ffocysau o weithgarwch yn parhau yn y Gogledd, lle'r oedd dangosyddion gwyliadwriaeth yn sefydlog neu'n gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Gwelwyd rhywfaint o gynnydd mewn ardaloedd yn nwyrain Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.


**Dangosfwrdd Data'r GIG**


- Diweddarwyd data Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 19/08/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 18/08/2020

UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3

- O blith y cyfanswm o 125 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi gostwng o 138 ers yr adroddiad blaenorol):
    - Mae 5 claf yr amheuir bod COVID arnynt (1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a 3 ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
    - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn 70% (i gyd yn gleifion heb COVID)

- Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn 52% (i gyd yn gleifion heb COVID )
- Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 50% (gan gynnwys 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
- Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o dan 50%.






**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

